WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol: 2016-17 Cyngor Sir Ddinbych

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2017
Cyfeirnod y ddogfen: 347A2017



Lluniwyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Jeremy Evans, Gwilym Bury, Siân Clark, Charlotte Owen, Paul Cunningham a Paul Goodlad o dan gyfarwyddyd Huw Rees.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus, a thrwy wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Gwaith archwilio perfformiad 2016-17 5

Mae'r Cyngor yn parhau i fodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus 5

Argymhellion 6

Cynigion ar gyfer gwella 7

## Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn parhau i fodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus 9

O ganlyniad i gynnydd sylweddol o ran cyflawni ei weledigaeth bresennol, mae'r Cyngor yn datblygu cynllun wedi'i ddiweddaru er mwyn disgrifio'i weledigaeth a'i brif uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol, a sut y bydd yn gweithredu fel sefydliad 9

Mae gan y Cyngor fframwaith clir a threfniadau llywodraethu cadarn ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau ond nid yw'r gwerthusiad o effaith newidiadau i wasanaethau bob amser yn amserol 13

Yn gyffredinol mae'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau'n dda, ond gall bod diffyg cydlyniad rhwng strategaethau corfforaethol eraill yn cyfyngu ar y cyfraniad y gall gwasanaethau unigol ei wneud tuag at nodau'r Cyngor 23

Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu a adroddwyd yn ystod 2016-17 42

## Atodiadau

Atodiad 1 - Statws yr adroddiad hwn 45

Atodiad 2 - Llythyr Archwilio Blynyddol 46

Atodiad 3 - Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17 49

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2016-17

1 Wrth bennu ehangder y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ystyriwyd y cyfoeth o wybodaeth a gasglwyd yn sgil archwiliadau ac arolygiadau yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys mecanweithiau Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) ei hun i adolygu a gwerthuso. Yn ystod 2016-17, cynhaliom waith asesu gwelliant ym mhob cyngor o dan dair thema: llywodraethu, y defnydd o adnoddau a chynllunio ac adrodd ar welliannau. Mewn rhai cynghorau, ategwyd y gwaith hwn drwy gynnal archwiliadau lleol yn seiliedig ar risg, a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2016-17.

2 Mae'r gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, yn yr adroddiad hwn.

## Mae'r Cyngor yn parhau i fodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus

3 Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, a hynny yn unig, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2017-18.

4 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

a o ganlyniad i gynnydd sylweddol o ran cyflawni ei weledigaeth bresennol, mae'r Cyngor yn datblygu cynllun wedi'i ddiweddaru er mwyn disgrifio'i weledigaeth a'i brif uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol, a sut y bydd yn gweithredu fel sefydliad

b mae gan y Cyngor fframwaith clir a threfniadau llywodraethu cadarn ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau ond nid yw'r gwerthusiad o effaith newidiadau i wasanaethau bob amser yn amserol: ac

c yn gyffredinol mae'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau'n dda, ond gall bod diffyg cydlyniad rhwng strategaethau corfforaethol eraill yn cyfyngu ar y cyfraniad y gall gwasanaethau unigol eu gwneud tuag at y nodau'r Cyngor.

## Argymhellion

5 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau o'i flaen, byddai'n anarferol pe na baem yn cael hyd i agweddau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol: The Auditor General is able to:

a wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu cyflwyno i'r Cyngor, byddwn yn disgwyl iddo weithredu arnynt ac yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, bydd yn rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

6 Ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, cafwyd nifer o gynigion ar gyfer gwella, ac ailadroddir y rhain yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd yn eu herbyn ac yn erbyn argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3) yn rhan o'n gwaith asesu gwelliant.

## Cynigion ar gyfer gwella

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Cryfhau trefniadau llywodraethu drwy:<br>• fonitro effaith pob newid sylweddol i wasanaeth yn gyson ac yn amserol. |
| C2 | Cryfhau trefniadau cynllunio ariannol drwy:<br>• ddatblygu Polisi Codi Tâl/Cynhyrchu Incwm; a<br>• graddoli risg yr arbedion yn ffurfiol yn unol â pha mor gyraeddadwy ydynt a nodi camau lliniaru cynaliadwy ar gyfer y rhai a ddosbarthwyd fel arbedion risg uchel. |
| C3 | Cryfhau trefniadau rheoli pobl drwy:<br>• ddatblygu dull o sicrhau y gall cyflogeion, sydd â mynediad cyfyngedig neu ddim o gwbl i'r fewnrwyd, gael gafael ar wybodaeth adnoddau dynol perthnasol; a<br>• sicrhau bod amrywiadau ac anghysondeb o ran cymhwyso polisïau Adnoddau Dynol yn cael eu hosgoi ar gyfer gweithwyr rheng flaen nad ydynt yn gweithio o swyddfa. |
| C4 | Cryfhau trefniadau rheoli asedau drwy:<br>• sicrhau bod y camau gweithredu sydd eisoes ar y gweill i foderneiddio trefniadau rheoli asedau corfforaethol yn hyrwyddo defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o bortffolio tir ac eiddo'r Cyngor ac yn atgyfnerthu ei gyfraniad fel adnodd strategol. |
| C5 | Cryfhau trefniadau TGCh drwy:<br>• sicrhau bod y Cyngor yn ymgynghori â'i wasanaeth TGCh ynglŷn â phob pryniant technoleg boed yn bryniant strategol neu arferol; a<br>• sicrhau bod arbenigedd TGCh digonol yn cael ei gynnwys mewn caffaeliadau a gweithrediadau mwy neu risg uwch. |
| C6 | Cryfhau trefniadau rheoli gwybodaeth drwy:<br>• sicrhau bod trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth yn bodloni gofynion y safonau rhyngwladol ac yn cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan y Cyngor;<br>• ymestyn cylch gorchwyl y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth i gynnwys anghenion gwybodaeth y busnes yn ogystal â'r gofynion er mwyn cydymffurfio;<br>• datblygu Strategaeth Wybodaeth, yn gysylltiedig â strategaethau adnoddau eraill, er mwyn llunio'r defnydd o wybodaeth a sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch pa bryd a lle bynnag mae ei angen; a<br>• datblygu cynlluniau gweithredu tymor hwy ar gyfer y System Rheoli Cofnodion a Dogfennau Electronig er mwyn symud y Cyngor tuag at ei nod o amgylchedd swyddfa di-bapur. |

# Adroddiad manwl



## Mae'r Cyngor yn parhau i fodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus

## O ganlyniad i gynnydd sylweddol o ran cyflawni ei weledigaeth bresennol, mae'r Cyngor yn datblygu cynllun wedi'i ddiweddaru er mwyn disgrifio'i weledigaeth a'i brif uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol, a sut y bydd yn gweithredu fel sefydliad

### Gydag arweinyddiaeth dda mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni ei weledigaeth bresennol

7 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni ei Gynllun Corfforaethol cyfredol 2012-2017, a ddiweddarwyd yn gynnar yn 2017 ar gyfer ei Gynllun Corfforaethol newydd. Mae'r Cabinet yn cynnig bod y Cyngor newydd yn mabwysiadu blaenoriaethau corfforaethol newydd fis Hydref 2017 wedi cylch arall o ymgynghori cyhoeddus yn ystod yr haf. Y blaenoriaethau newydd arfaethedig yw:

- a Mae Sir Ddinbych yn lle y bydd pobl iau yn dymuno byw a gweithio ac mae ganddynt y sgiliau i wneud hynny;
- b Mae cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau'n lleol, ar-lein neu drwy gysylltiadau trafnidiaeth da;
- c Mae yna amgylchedd deniadol a warchodir sy'n cefnogi lles a ffyniant economaidd cymunedau;
- ch Gall pobl fyw bywydau annibynnol a chyflawn mewn cymunedau cryf, gofalgar, diogel a gwydn;
- d Mae'r Cyngor a chymunedau yn gweithio gyda'i gilydd i oresgyn heriau; gan ddyfeisio a chyflawni atebion ar y cyd; ac
- dd Mae digwyddiadau sy'n dod â phobl at ei gilydd, gan greu cymunedau gweithgar a helpu busnesau i ffynnu.

8 Yn ei Adroddiad Blynyddol fis Hydref 2016, cyflwynodd y Cyngor ddadansoddiad manwl a chywir o'i berfformiad yn erbyn y gyfres o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys esboniad clir o lle'r oedd perfformiad wedi dirywio yn y 17 dangosydd lle'r oedd hynny'n berthnasol.

9 O'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru, mae perfformiad y Cyngor yn y chwartel uchaf ar gyfer 62% o'r dangosyddion. Roedd perfformiad Sir Ddinbych wedi gwella neu ei gynnal o'i gymharu â chynghorau eraill, yn erbyn ymhell dros hanner y dangosyddion perfformiad. Yn gyffredinol mae hyn yn ddarlun boddhaol o berfformiad.

10 Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cysylltu'n dda â Chynllun Llesiant Sir Ddinbych 2014 - 2018, cynllun integredig sengl y sir a ddatblygwyd gan Fyrddau Gwasanaeth Lleol Conwy a Sir Ddinbych ar y cyd (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych erbyn hyn). Mae'r Cynllun Llesiant yn adlewyrchu blaenoriaethau sy'n gyffredin i'r ddwy sir, yn ddaearyddol ac economaidd. Mae'r ffocws ar yr economi a'r seilwaith gwledig yn glir

11 Ers 2012, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu rhaglen buddsoddi cyfalaf uchelgeisiol o £200 miliwn, gydag arian gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd yn ategu buddsoddiad y Cyngor ei hun. Mae hyn yn golygu buddsoddiad o bron i £97 miliwn ar adeiladu neu foderneiddio ysgolion, £18,400,000 ar wella ffyrdd, £16,100,000 ar wella amddiffynfeydd rhag llifogydd, £26,800,000 ar ddatblygu economi Rhyl, £13,600,000 ar wella llyfrgelloedd, hamdden a thai ac mae £2.5 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer moderneiddio'r gwasanaethau cymdeithasol.

12 Mae Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn cyfeirio'n glir at anghenion a dymuniadau dinasyddion, gan gefnogi'r rhesymeg y tu ôl i ddewis nifer o'r meysydd blaenoriaeth, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag adfywio ac adeiladu'r economi leol. Er mwyn cefnogi'r ffocws arbennig ar yr economi leol, lluniodd y Cyngor y Cynllun Gweithredu Economaidd a Chymunedol. Mae'r ddogfen bellgyrhaeddol hon yn cynnwys manylion ychwanegol ynglŷn â nodau'r Cyngor. Fodd bynnag, fel yn achos y Cynllun Corfforaethol, nid yw'r Cyngor mor dryloyw neu benodol yn y ddogfen gyhoeddus am y lefelau perfformiad y mae'n gobeithio'u cyflawni, ond yn fewnol, mae'n eithaf clir am ei nodau llwyddiant.

13 Fel rhan o ddatblygiad y blaenoriaethau newydd sy'n dod i'r amlwg, gwnaeth y Cyngor gryn dipyn o waith ymgysylltu gan ganolbwyntio ar breswylwyr, staff, a Chynghorwyr, a derbyniwyd dros 1,500 o ymatebion. Helpodd yr ymgysylltiad hwn i nodi blaenoriaethau er mwyn cyflawni anghenion a datrys pryderon cymunedau. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal cyfres o gyfarfodydd dinasyddion neu 'Sgyrsiau Sir' lle mae'n trafod materion penodol gyda dinasyddion.

14 Tua 12 mis yn ôl, dechreuodd y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor y drafodaeth ynglŷn â llunio'r dyfodol ac adolygu a diweddaru'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer y cyfnod gweinyddol nesaf. Mae'r drafodaeth yn canolbwyntio ar sut fydd y Cyngor yn gweithredu fel busnes, gan ddal i ddatblygu 'Ffordd Sir Ddinbych'. Mae hwn yn ddull sy'n rhoi pwyslais ar undod, balchder, gonestrwydd a pharch ac egwyddorion sy'n rhoi blaenoriaeth i berfformiad a chanlyniadau a gyflawnir drwy arweinyddiaeth gyfunol, tryloywder, atebolrwydd a bod yn agos i'w gymunedau.

15 Mae cynghorwyr a swyddogion yn mynegi a hyrwyddo gweledigaeth gyfredol y Cyngor yn huawdl, ac yn darparu neges arweinyddiaeth gyson, gweladwy, a rennir i staff a phartneriaid. Mae swyddogion a chynghorwyr yn siarad yn agored am yr angen i ddatblygu gweledigaeth ddiwygiedig, ac mae uwch swyddogion yn gwbl ymwybodol o syniadau'r Prif Weithredwr am hyn. Mae'r Cyngor yn deall pwysigrwydd sefydlu diwylliant sefydliadol cryf, a gaiff ei ategu gan y capasiti a'r gallu priodol. Mae'r diwylliant hwn sydd wedi'i ymgorffori i raddau helaeth yn egwyddorion 'Ffordd Sir Ddinbych', yn datblygu'n dda ac yn weladwy yn llawer o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud.

## Mae'r Cyngor yn dangos dealltwriaeth glir o'i atebolrwydd i randdeiliaid ac yn gyffredinol mae ei ymgysylltiad â rhanddeiliaid mewnol ac allanol ynglŷn â materion strategol allweddol yn effeithiol

16 Mae'r Cyngor yn dangos dealltwriaeth briodol o'i gyfrifoldebau ffurfiol i randdeiliaid allweddol a'r cyhoedd; mae ei atebolrwydd ffurfiol yn cael ei ddogfennu'n briodol yn, er enghraifft, Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor a'r Cyfansoddiad. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i gryfhau ei gyfathrebu a'i ymgysylltiad allanol, er bod ei wefan yn weddol hygyrch a hawdd ei defnyddio.

17 Mae uwch swyddogion a chynghorwyr yn chwarae rhan weithredol mewn deialog adeiladol gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'i nodau, perfformiad a'i weithgarwch gwella. Yn ogystal â bodloni gofynion statudol (megis Cynlluniau Gwella ac Adroddiadau Perfformiad Blynyddol), mae swyddogion a chynghorwyr yn chwilio am gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o faterion lleol a rhanbarthol pwysig gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol allweddol eraill, megis Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

18 Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gyfleoedd i aelodau'r cyhoedd ofyn a chael atebion i gwestiynau penodol ynglŷn â pherfformiad corfforaethol a gwasanaethau. Yn ogystal â threfniadau ffurfiol sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd gyflwyno cwestiynau i'r Cabinet (a ychwanegwyd i'r Cyfansoddiad yn niwygiad 2016), gall pwyllgorau craffu gyflwyno cwestiynau a phynciau a awgrymwyd gan y cyhoedd, a gall aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau ar lefel leol/cymdogaeth drwy gyfarfodydd rheolaidd Grwpiau Ardal yr Aelodau.

19 Mae gan y Cyngor drefniadau digonol er mwyn hyrwyddo llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau drwy gwmnïau, ymddiriedolaethau, neu endidau allanol eraill. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen am eglurder o ran ei resymeg dros gyflwyno gwasanaethau trwy endidau allanol, ac, er enghraifft, roedd achos fusnes trosglwyddo cyfrifoldeb am y gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau i bartneriaeth breifat yn dryloyw. Fel paratoad ar gyfer Modelau Darparu Amgen yn y dyfodol, mae'r Cyngor wedi datblygu dull cynhwysfawr o werthuso opsiynau ar gyfer y dyfodol gan ddefnyddio methodoleg a adlewyrchir yn y rheoliadau ariannol diwygiedig a gymeradwywyd gan y pwyllgor llywodraethu corfforaethol fis Gorffennaf 2016. Mae gan y Cyngor drefniadau cynhwysfawr ar gyfer monitro contractau, sy'n cynnwys cyllid, risg a llywodraethu ar gyfer ei ddau gontract allanol. Mae Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd ynghylch cadernid y trefniadau. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys Protocol a Chanllawiau i gynghorwyr sydd wedi'u penodi i gyrff allanol, ond nid oes canllawiau cyfatebol eto ar gyfer swyddogion.

## Mae gan y Cyngor fframwaith clir a threfniadau llywodraethu cadarn ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau ond nid yw'r gwerthusiad o effaith newidiadau i wasanaethau bob amser yn amserol

### Mae gweledigaeth a strategaeth y Cyngor yn rhoi fframwaith clir ar gyfer llunio a gweithredu newidiadau sylweddol i wasanaethau

20 Mae llywodraethu yn ymwneud â'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, ar gyfer y bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n llywio a rheoli cyrff cyhoeddus a thrwyddo maent yn ateb, yn ymgysylltu, a lle bo'n briodol, 'yn arwain eu cymunedau.'[1]

21 Mae llywodraethu da yn hanfodol ar gyfer stiwardiaeth effeithiol o arian cyhoeddus a darpariaeth barhaus o wasanaethau cyhoeddus effeithlon a dibynadwy. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a setliadau llai i lywodraeth leol, ynghyd â'r galw cynyddol am rai gwasanaethau, yn golygu bod pob cyngor yn debygol o barhau i fod angen gwneud penderfyniadau ynglŷn â siâp a lefel darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'n briodol bod cyrff cyhoeddus yn ceisio gwella'n barhaus. Mae newidiadau bach cynyddol i gyflawniad gwasanaethau'n cael eu gwneud ar lefel rheoli a gweithredu fel rhan o'r broses weithredol arferol o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae llywodraethu da, wedi'i gefnogi gan gynllunio effeithiol a phrosesau trylwyr yn hanfodol wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Yn aml, mae penderfyniadau o'r fath yn ddadleuol, yn ennyn cryn ddiddordeb yn lleol a gallant gael effaith sylweddol ar yr unigolion a'r grwpiau yr effeithir arnynt.

22 O fis Ebrill 2016, mae'n ofynnol i gynghorau gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Deddf LlCD) a'r Canllawiau Statudol cysylltiedig. Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi: 'Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'[2]. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd llywodraethu effeithiol wrth gyflawni nodau llesiant.

1 CIPFA/SOLACE, Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2007
2 Llywodraeth Cymru, **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,** Chwefror 2016

23 Mae ein gwaith ni'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau. Rydym yn diffinio newid i wasanaethau fel unrhyw newid sylweddol o ran cyflawni gwasanaethau a/neu unrhyw newid sylweddol ym mhrofiad defnyddwyr gwasanaethau allanol o wasanaethau. Gall newidiadau gynnwys y ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, lefel y gwasanaeth a ddarperir, argaeledd neu gost y gwasanaeth.

24 Gan gymryd fframwaith diwygiedig y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) **Cyflawni llywodraethu da mewn llywodraeth leol** fel safon briodol, mae'r adolygiad hwn yn rhoi gwaelodlin i'r Cyngor ar gyfer cynllunio gwelliant pellach. Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd o Fedi i Dachwedd 2016, buom yn edrych ar agweddau o'r trefniadau gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag ystod o gynigion arwyddocaol o ran newid gwasanaethau, er mwyn llywio ein hasesiad o drefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer datblygu a phenderfynu ar newidiadau i wasanaethau. Roedd yr enghreifftiau o newidiadau i wasanaethau y buom yn eu hastudio'n cynnwys:

a y gwasanaeth refeniw a budd-daliadau;

b codi tâl am gasglu gwastraff gardd; ac

c adolygiad o'r gwasanaethau hawliau lles.

25 Nid oeddem yn edrych yn fanwl ar bob un o'r penderfyniadau unigol ynglŷn â newidiadau i wasanaethau, ond yn hytrach yn eu defnyddio fel enghreifftiau o sut mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â newidiadau i wasanaethau. Hefyd, arsylwyd ar nifer o heriau gwasanaeth mewnol blynyddol lle'r oedd uwch swyddogion a chynghorwyr arweiniol yn adolygu effaith nifer o newidiadau i wasanaethau.

26 Mae gan y Cyngor weledigaeth a strategaeth glir ar gyfer cynigion i newid gwasanaethau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau a fynegir yn eglur yn ei Gynllun Corfforaethol 2012-2017 ac yn ei amcanion gwella mwyaf diweddar. Y blaenoriaethau yw:

- a datblygu'r economi leol;
- b gwella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion;
- c gwella'n ffyrdd;
- ch amddiffyn pobl sy'n agored i niwed a sicrhau y medrant fyw mor annibynnol ag y bo modd;
- d strydoedd glân a thaclus;
- dd sicrhau bod tai o ansawdd da ar gael; a
- e moderneiddio'r Cyngor i sicrhau arbedion a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid.

27 Rhaid i bob cynnig gan swyddogion ynglŷn â newidiadau i wasanaethau ddangos eu bod yn berthnasol i amcanion cynllun corfforaethol y Cyngor a sut y bydd eu gweithredu'n cyfrannu at y canlyniadau a nodir yn y cynllun. Mae gan y newidiadau i wasanaethau yn Sir Ddinbych a archwiliwyd gennym gysylltiadau clir gyda'r amcan o 'foderneiddio'r Cyngor i sicrhau arbedion a gwella gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid' yn y cynllun corfforaethol.

28 Mae'r Cyngor yn gweithredu nifer o ddulliau amgen o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau partneriaeth gyda'r sector preifat a gwasanaethau a rennir gyda chynghorau lleol eraill a'r trydydd sector, megis cynllun dosbarthu tai sy'n gyffredin rhwng y Cyngor a chymdeithasau tai lleol. Yn y newidiadau i wasanaethau a archwiliwyd gennym, megis trosglwyddiad, yn 2015, y staff refeniw a budd-daliadau i bartneriaeth newydd gyda chwmni preifat, mae achos busnes cynhwysfawr sy'n nodi sut mae'r trosglwyddiad yn dangos gwerth am arian, yn cynhyrchu incwm ychwanegol, ac yn cynnal y perfformiad presennol gyda llai o adnoddau. Nodwyd yn ein hadroddiad gwella blynyddol diwethaf fod y Cyngor yn adolygu ystod eang o opsiynau posibl o ran darparwyr gwasanaeth hamdden amgen, a chynhaliwyd 14 gweithdy i randdeiliaid ynghyd â dadansoddiad cost a budd manwl, gan gynnwys cymariaethau marchnad leol. Rhoddodd y gwaith hwn wybodaeth fanwl i'r Cyngor ynglŷn â pherfformiad a boddhad cwsmeriaid ar gyfer pob un o'i gyfleusterau hamdden. Mae'r gwaith hefyd wedi caniatáu i'r Cyngor ddatblygu cynlluniau gweithredol manwl ar gyfer cyfleusterau hamdden unigol er mwyn cyflawni ei nod o wneud gwasanaethau sy'n hunan-ariannu a hefyd yn ganolog ar gyfer gwella iechyd trigolion Sir Ddinbych.

29 Mae'r Cyngor yn adolygu ei drefniadau llywodraethu o ran newidiadau i wasanaethau er mwyn cwrdd â gofynion Deddf LlCD. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi diwygio ei gyfansoddiad a fformat ei adroddiadau ar gyfer papurau pwyllgorau. Hefyd, mae wedi adolygu systemau er mwyn adlewyrchu canllawiau LlCD ym meysydd archwilio mewnol, cynllunio'r gweithlu, rheoli asedau, risg, ymgysylltu â'r cyhoedd, cynllunio ariannol a busnes. Mae'n datblygu pecyn cymorth Asesiad Effaith ar Lesiant ar-lein er mwyn ei helpu i fynd i'r afael â gofynion Deddf LlCD, gan gynnwys asesiad o effaith cynigion newidiadau i wasanaethau, ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen llawer rhagor o waith a gwelliannau i'r pecyn cymorth hwn.

30 Roedd y newidiadau arwyddocaol i wasanaethau y buom yn eu hastudio yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, gyda'r Cyngor yn gwahodd sylwadau gan breswylwyr, staff, cynghorau tref a chymuned a rhanddeiliaid eraill. Yn ogystal â dulliau mwy traddodiadol megis cyfarfodydd cyhoeddus ac arolygon trigolion, mae'r Cyngor yn ceisio ymgysylltu drwy arolygon ar-lein a chyfres o gyfarfodydd dinasyddion (sgyrsiau sirol). Mae'r Cyngor hefyd yn ymgysylltu â dinasyddion drwy drafodaethau ynglŷn â materion penodol megis y sgwrs sirol ar 'gynllunio'r dyfodol' oedd â'r bwriad o lunio syniadau ar gyfer newidiadau i wasanaethau'r dyfodol gyda'r agenda wedi'i gosod er mwyn casglu barn dinasyddion am y canlynol:

a beth sy’n gweithio’n dda i chi yn eich cymuned leol ar hyn o bryd?

b eich gobeithion a’ch dyheadau ar gyfer y dyfodol

c sut allwn ni ddatblygu’r hyn sy’n gweithio’n dda ar hyn o bryd a gwneud y dyfodol hwn yn realiti?; a’r

ch hyn a allai rwystro’r pethau hyn rhag digwydd.

31 Yn ogystal â sgyrsiau sirol mae’r Cyngor wedi sefydlu chwech o Grwpiau Ardal yr Aelodau (MAGs), sydd i gyd yn cynnwys grŵp bach o wardiau cyfagos. Mae’r rhain yn gweithredu ar lefel leol er mwyn mynd i’r afael â materion lleol penodol. Dosbarthwyd cyllid i’r chwe Grŵp fel bod cynghorwyr lleol yn gallu rhoi arian i brosiectau penodol a awgrymir gan ddinasyddion y wardiau. Roedd cynghorwyr a swyddogion y Cyngor yn canmol y dull hwn yn ystod ein hadolygiad.

## Mae’r trefniadau atebolrwydd a llywodraethu ar gyfer y cynghorwyr a’r swyddogion wrth iddynt ystyried newidiadau sylweddol i wasanaethau yn glir ac yn cael eu deall yn drwyadl

32 Fe ymddengys bod trefniadau presennol y Cyngor yn gweithio’n dda wrth ystyried newid i wasanaethau. Cyfran gymharol isel o waith y pwyllgorau craffu yw craffu cyn penderfynu, pan fydd pwyllgorau’n ystyried materion cyn iddynt gyrraedd y Cabinet ar gyfer gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae nifer o grwpiau craffu gorchwyl a gorffen, megis grŵp gorchwyl a gorffen Torri’r gôt yn ôl y Brethyn, sy’n ystyried arbedion effeithlonrwydd a newidiadau eraill i wasanaethau. Mae’r defnydd o graffu cyn penderfynu yn helpu’r Cyngor i sicrhau bod y cynghorwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau mewn modd amserol er mwyn llywio a hwyluso gwneud y penderfyniadau hynny.

33 Mae rolau a chyfrifoldebau’r swyddog monitro a Phenaethiaid y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd ac Adnoddau Dynol o ran newidiadau sylweddol i wasanaethau yn cael eu nodi’n glir yn y cyfansoddiad. Diweddarodd y Cyngor ei gyfansoddiad fis Gorffennaf 2016 ac mae rolau cynghorwyr a swyddogion wedi eu nodi’n glir ac yn unol â chanllawiau CIPFA a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

34 Ers 2015 sefydlwyd fframwaith corfforaethol er mwyn ystyried darparwyr gwasanaethau amgen a threfniadau monitro a llywodraethu dilynol ac roedd y newidiadau perthnasol i wasanaethau y buom yn eu hastudio yn dilyn y fframwaith hwn. Mae'r fframwaith yn nodi'n glir yr angen am gael y canllawiau perthnasol yn eu lle, y trefniadau ar gyfer ystyried a gweithredu newidiadau, rolau'r rhai sydd ynghlwm â'r mater, trefniadau monitro a llywodraethu, ynghyd â'r elfennau cyfreithiol angenrheidiol a'r lefelau isaf o fonitro sydd eu hangen yn ôl gwerth y gwasanaethau a ddarperir.

## Mae cynghorwyr yn herio'n gadarn opsiynau newydd a chynigion o ran cyflenwi gwasanaethau

35 Roedd y newidiadau i wasanaethau a archwiliwyd gennym wedi eu hadolygu'n systematig a chadarn o ran y gwahanol opsiynau ar gyfer darparu'r gwasanaethau. Roedd gan bob un o'r newidiadau i wasanaethau a archwiliwyd gennym achosion busnes cynhwysfawr oedd yn trafod amrywiaeth o opsiynau a chostau cysylltiedig cynigion amgen ac yn cynnwys asesiad gwybodus o effaith tybiedig gwahanol ddewisiadau ar ddefnyddwyr y gwasanaethau. Yn ogystal â gwaith grwpiau gorchwyl a gorffen cynghorwyr ynglŷn â newidiadau i wasanaethau mae trefniadau herio gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i ddarparu datganiadau sefyllfa cynhwysfawr a manwl ar gyfer cynghorwyr a rheolwyr, sy'n rhoi'r data perfformiad sydd ar gael ac yn adrodd ar gynnydd prosiectau mawr. Yna mae uwch staff a chynghorwyr yn herio datganiad safbwynt y gwasanaeth ar newidiadau i'r gwasanaeth ac yn galluogi swyddogion i roi perfformiad y gwasanaeth yng nghyd-destun risgiau hysbys, ac i ganolbwyntio yn y cyfarfod her dilynol ar y materion hynny sydd fwyaf perthnasol.

36 Mae pob penderfyniad sylweddol ynglŷn â newid i wasanaethau'n cael ei adolygu gan y pwyllgor craffu perthnasol ac yna'r Cabinet er bod newidiadau mwy dadleuol i wasanaethau, fel newidiadau i gartrefi preswyl, yn cael eu trafod yn y Cyngor llawn. Mae'r newidiadau arfaethedig i wasanaethau cartrefi preswyl wedi cael eu haddasu o ganlyniad i gynigion gan bwyllgor craffu a grwpiau gorchwyl a gorffen.

37 Mae pob penderfyniad ynglŷn â newidiadau i wasanaethau'n cael ei gofnodi'n llawn ac yn gywir mewn modd amserol ac mae cofnodion ysgrifenedig ar gael ar wefan y Cyngor. Nid yw cyfarfodydd craffu a'r Cabinet yn cael eu gwe-ddarlledu ar hyn o bryd ond mae'r Cyngor yn ystyried cyflwyno hyn fel rhan o'i gynlluniau i drawsnewid siambr y Cyngor a phrynu offer gwe-ddarlledu newydd.

## Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n weithredol gyda rhanddeiliaid er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ac mae wedi ymrwymo i ehangu cyfranogiad er mwyn adlewyrchu amrywiaeth Sir Ddinbych yn well

38 Mae'r newidiadau arwyddocaol i wasanaethau a archwiliwyd gennym yn dangos bod y Cyngor wedi treulio cryn dipyn o amser yn gwneud gwaith ymgysylltu, gan ganolbwyntio ar drigolion, rhanddeiliaid, staff a chynghorwyr. Helpodd hyn i nodi blaenoriaethau wrth ymwneud ag anghenion a phryderon cymunedau. Roedd y prif weithgareddau a gynhaliwyd gan y Cyngor fel rhan o'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu er mwyn llywio newidiadau i wasanaethau yn cynnwys:

- a arolwg i drigolion, ddwywaith y flwyddyn;
- b gweithdai i ddefnyddwyr y gwasanaethau;
- c ymgynghori gyda rhanddeiliaid allanol;
- ch gweithdai staff; a
- d gweithdai gyda chynghorwyr er mwyn ystyried casgliadau'r ymgysylltu.

39 Mae'r Cyngor yn hysbysebu ymgynghoriadau ar newidiadau i wasanaethau'n dda, ar ei wefan a thrwy ystod o ddulliau eraill o hysbysebu yn Sir Ddinbych. Pan roedd posibilrwydd y byddai'r newidiadau arfaethedig i wasanaethau'n ddadleuol, megis newidiadau i wasanaethau gofal mewnol, ymgymerodd y Cyngor â nifer o gyfarfodydd cyhoeddus, wedi eu hysbysebu'n dda, dros nifer o fisoedd, a nifer fawr o gyfarfodydd gyda defnyddwyr y gwasanaeth, undebau llafur, staff a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'n hawdd cael agendâu a phapurau am newidiadau i wasanaethau ar wefan y Cyngor.

40 Mae tudalen ymgynghoriadau ar wefan y Cyngor sy'n esbonio'r hyn sy'n digwydd gydag ymgynghoriadau cyfredol a rhai sydd wedi dod i ben. Mae cylchlythyr y Cyngor i breswylwyr, 'Llais y Sir', yn adrodd ar weithgareddau ymgynghori a sut y mae penderfyniadau ynglŷn â newidiadau i wasanaethau yn cael eu gwneud.

41 Er bod gweithgaredd ymgysylltu'r Cyngor ar newidiadau i wasanaethau, megis y gwasanaethau hamdden neu'r gwasanaethau gofal mewnol, o safon uchel, ni allai unrhyw newid i wasanaeth a archwiliwyd gennym ddangos yn ddigamsyniol bod ymgysylltiad wedi bod â phobl o'r holl nodweddion wedi'u diogelu a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2011.

42 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ehangu cyfranogiad er mwyn adlewyrchu amrywiaeth Sir Ddinbych yn well. Yn 2016 cymeradwyodd y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2016-2018. Mae'r cynllun cydraddoldeb newydd yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith er mwyn cwrdd â saith nod Deddf LlCD gan gynnwys y nod cydraddoldeb. Fel rhan o'r ymagwedd hon, bydd Fforwm Cydraddoldeb Sir Ddinbych yn cael ei sefydlu gyda chyfranogwyr o bob un o'r grwpiau sydd â nodweddion wedi'u diogelu. Drwy'r fforwm, bydd y Cyngor yn datblygu agwedd newydd a gwell tuag at asesiadau effaith ar gydraddoldeb.

## Mae'r Cyngor yn monitro perfformiad gwasanaethau ac yn gwerthuso effaith newidiadau unigol i wasanaethau, er ar adegau nad yw bob amser yn amserol

43 Mae cyfansoddiad diwygiedig 2016 y Cyngor yn nodi pwy sy'n gyfrifol am fonitro effaith newidiadau i wasanaethau. Roedd y newidiadau i wasanaethau a astudiwyd gennym yn aml wedi eu monitro'n fewnol drwy Fwrdd Moderneiddio'r Cyngor sy'n cynnwys uwch swyddogion a chynghorwyr.

44 Mae trefniadau trawsnewid ar gyfer newidiadau i wasanaethau'n cael eu cynllunio'n glir ac nid oes tystiolaeth bod y gwasanaethau i'r cyhoedd wedi dirywio yn ystod cyfnod trawsnewid y newidiadau i wasanaethau a astudiwyd gennym. Er enghraifft, ni fu unrhyw ddirywiad yng nghyflymder talu budd-daliadau i'r cyhoedd yn ystod cyfnod trawsnewid y gwasanaeth refeniw a budd-daliadau. Roedd y newidiadau i wasanaethau a astudiwyd gennym, fel er enghraifft cyflwyno taliadau am gasglu gwastraff gardd, wedi cyflawni'r lefelau disgwyliedig o arbedion.

45 Roedd achosion busnes yr holl newidiadau i wasanaethau a astudiwyd gennym yn nodi gofynion trefniadau monitro drwy graffu ac fel arfer, adolygu drwy archwiliad mewnol. Roedd trefniadau ar gyfer adrodd yn gyhoeddus ar effaith y newidiadau i wasanaethau'n ddibynnol ar y broses graffu. Fodd bynnag, mewn o leiaf un achos, ac ar awgrym y cynghorwyr, ni chraffwyd am gyfnod sylweddol wedi gweithredu'r newid. Ym mis Ebrill 2015 trosglwyddwyd y gwasanaeth refeniw a budd-daliadau i bartneriaeth newydd gyda chwmni preifat. Roedd y Cyngor wedi bwriadu i graffu adolygu effaith y newidiadau ar ôl 18 mis. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd yr adolygiad hwn tan 2017, tua dwy flynedd ar ôl y newid. Gallai cynnal yr adolygiad hwn mor hwyr â hyn guddio materion ac atal neu lesteirio'r Cyngor wrth iddynt weithredu er mwyn datrys problemau a nodwyd.

46 Pan fo adroddiadau archwilio mewnol ar newidiadau i wasanaethau yn nodi sicrwydd isel neu ddiffyg sicrwydd maent yn cael eu hystyried yn gyhoeddus gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r Cyngor bellach yn cynyddu'r cyfle i graffu'r holl adroddiadau archwilio mewnol yn gyhoeddus drwy ddarparu crynodeb byr o ganfyddiadau pob adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

## Mae'r Cyngor yn rhagweithiol o ran adolygu a gwella effeithiolrwydd trefniadau gwneud penderfyniadau

47 Mae adolygiad blynyddol y Cyngor o'i ddatganiad llywodraethu yn gynhwysfawr ac mae'n adolygu ei drefniadau gwneud penderfyniadau yn sgil profiad ac arferion da cymeradwy. Mae gan Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor ran briodol mewn sicrhau bod prosesau addas ar waith ar gyfer nodi a rheoli risgiau, sydd yn ei gynorthwyo gyda'i rôl ac â llunio'r datganiad llywodraethu blynyddol. Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol yn nodi'n glir sut mae risgiau'n cael eu rheoli a'u monitro, ac mae prosesau i nodi risgiau derbyniol newydd. Mae'r Cyngor yn gweithredu er mwyn ymdrin ag unrhyw wendidau a nodwyd yn y trefniadau gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, o ganlyniad i wendidau mewn caffael TGCh a nodwyd gan yr archwilwyr mewnol, mae rôl y gwasanaeth TGCh mewn caffael erbyn hyn wedi'i nodi'n glir yng nghyfansoddiad y Cyngor.

48 Mae’r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd rheoli risg ac mae ganddo Gofrestr Risg Gorfforaethol ynghyd â chanllawiau cysylltiedig. Mae risgiau allweddol, gan gynnwys newid sylweddol i wasanaethau megis cynigion ynglŷn â chartrefi preswyl, yn cael eu nodi a’u hasesu fel risg uchel, canolig neu isel. Mae’r Cyngor wedi cymeradwyo Strategaeth Rheoli Risg a Chofrestr Risg Corfforaethol ac mae’n ystyriol ohono wrth ddyrannu adnoddau. Mae’r Cabinet wedi cytuno y dylai ystyried diweddariadau i’r Gofrestr Risg Corfforaethol bob chwe mis. Mae gwasanaethau unigol yn llunio’u cofrestr risg eu hunain, ac maent yn ei hystyried ochr yn ochr â’u cynllun gwella gwasanaeth.

49 Yn ogystal, mae rheoli risg yn cael blaenoriaeth uchel gan bob gwasanaeth. Mae’r broses o fonitro sut mae pob gwasanaeth yn rheoli ei risgiau yn gyson ac mae trefniadau atebolrwydd yn glir. Caiff risgiau eu rheoli’n dda ar brosiectau mawr unigol a hynny’n uniongyrchol gan bennaeth y gwasanaeth os ystyrir bod risg corfforaethol mwy, ychwanegol. Mae pob penderfyniad yn cael ei gofnodi, gan gynnwys pan fo penderfyniad wedi’i wneud i beidio â chynnwys risgiau lefel isel yn y cofrestri.

## Yn gyffredinol mae’r Cyngor yn rheoli ei adnoddau’n dda, ond gall bod diffyg cydlynu rhwng strategaethau corfforaethol eraill yn cyfyngu ar y cyfraniad y gall gwasanaethau unigol ei wneud tuag at nodau’r Cyngor

### Mae gan y Cyngor ddull effeithiol, a ystyriwyd yn drwyadl, o gynllunio arbedion sy’n hybu gwytnwch ariannol ar gyfer y dyfodol

### Cyd-destun

50 Ers 2010, mae llywodraeth y DU wedi lleihau gwariant ar wasanaethau cyhoeddus fel rhan o’i chynllun i leihau’r diffyg ariannol. Yn sgil toriadau i’w chyllideb, bu’n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud dewisiadau anodd o ran sut i ddosbarthu’r toriadau ariannol hynny rhwng y gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. O ganlyniad, mae’r cyllid craidd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i gynghorau lleol wedi gostwng bob blwyddyn. Hyd yma, mae’r rhan fwyaf o gynghorau lleol wedi llwyddo i leihau eu gwariant a mantoli’u cyllidebau, ond mae’r gostyngiadau blynyddol yn debygol o barhau ar yr un lefel. Dengys ein dadansoddiad bod gostyngiad mewn termau real o £483,000,000 (10.9%) wedi bod yn y cyllido craidd hwn rhwng 2013 - 14 a 2016 - 17[3]


51 Mae’n bosibl y bydd effaith y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn fygythiad i gynghorau lleol a’r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Yn syth ar ôl y penderfyniad, cafwyd ymateb yn y marchnadoedd ariannol a arweiniodd at ansefydlogrwydd, er enghraifft, ym mhrisiau cyfranddaliadau, cyfraddau cyfnewid arian, prisiau olew ac arenillion bondiau, ac mae’r DU yn parhau i wynebu cryn dipyn o ansicrwydd yn ogystal â chwestiynau pwysig am berthnasoedd economaidd a masnachu ag Ewrop yn y dyfodol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi mynegi pryderon ynghylch goblygiadau canlyniad refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, gan ei alw’n ‘newid syfrdanol’[4] ym mholisi cyhoeddus y DU yn enwedig am mai gyda’i gilydd y cynghorau lleol yw’r cyflogwr mwyaf yng Nghymru a darparwyr llawer o wasanaethau cyhoeddus pwysig.

3 Mae cymharu cyllido craidd (Cyllid Allanol Agregedig) yn ystod y cyfnod 2013 - 14 i 2016 - 17 yn gymhleth am ddau brif reswm. Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori grantiau yn y cyllido craidd oedd yn cael eu dosbarthu ar wahân yn y gorffennol. Er bod y broses hon o ‘ddad-bridiannu’ yn arwain at gynnydd yn y cyllid craidd, nid yw o reidrwydd yn gynnydd net mewn cyllid. Mae gwerth net grantiau sydd wedi’u hymgorffori yn y cyllid craidd ers 2013 - 14 tua £76 miliwn mewn termau real (wedi’i addasu ar gyfer chwyddiant).

4 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, **Pryder am effaith y refferendwm ar wasanaethau**, 24 Mehefin 2016

52 Er bod y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wedi gostwng yn gyffredinol, bu disgwyl i gynghorau ddiogelu ysgolion a gofal cymdeithasol rhag y rhan fwyaf o'r pwysau. Mae gofal cymdeithasol yn arbennig wedi cael trafferth hyd yn oed gyda'r diogelwch hwn gan fod, er enghraifft, newidiadau demograffig wedi cynyddu'r galw am wasanaethau. Golyga hyn felly mai gwasanaethau eraill sydd wedi ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r toriadau ac wedi gweld gostyngiad yn eu cyllidebau o 30% neu fwy mewn termau real ers 2013 - 14.

## Arddangosyn 2: Cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn 2016-17




Ffynhonnell: Stats Cymru

53 Derbyniodd y Cyngor £140 miliwn o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn 2016 - 17. Mae hyn yn cyfateb i £1,455 y pen yn y sir, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru ond sy'n ostyngiad o 10.9%[5] y pen mewn termau real ers 2013 - 14. Mae materion allweddol eraill sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol gyffredinol unrhyw gyngor, er enghraifft, sylfaen y Dreth Gyngor, y gallu i gynhyrchu incwm yn lleol a lefelau amddifadedd.

## Arbedion a gyflawnwyd yn 2015 - 16

## Nododd y Cyngor ei fod wedi cyflawni 91% o'i arbedion arfaethedig ar gyfer 2015 - 16 yn ystod y flwyddyn a gall ddangos bod arbedion unigol wedi'u cyflawni

### Nodweddion cynllunio ariannol da

54 Dylai fod gan gynghorau sydd â hanes da o gyflawni'r rhan fwyaf o arbedion arfaethedig yn ystod y flwyddyn gynlluniau arbedion a chynlluniau cyflawni datblygedig ar waith a ategir gan brosesau monitro cadarn. Nid oes rhaid i'r cynghorau hyn gau'r bwlch yn barhaus o flwyddyn i flwyddyn, drwy nodi arbedion amgen, defnyddio cyllid untro heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, cronfeydd cyffredinol wrth gefn, cronfeydd wrth gefn nac incwm heb ei gynllunio damweiniol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn

### Yr hyn a nodwyd gennym

55 Yn ein hadolygiad 2015 - 16 nodwyd fod y Cyngor wedi cyflawni tua 99% o'r arbedion a gynlluniwyd yn 2014 - 15.

56 Yn ein hadolygiad 2016 - 17 nodwyd fod yr arbedion a gynlluniwyd a gyflawnwyd yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol. Mae ein canfyddiadau isod.

57 Cyflwynodd y Cyngor orwariant net o £25,000 ar ei gyllideb ar gyfer 2015 - 16 a chyflawnodd 91% o'i arbedion arfaethedig. Er y bu tanwariant net cyfunol o £1.6 miliwn ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol, roedd gorwariant sylweddol o bron i £2 filiwn ar y cyllidebau sydd wedi'u dirprwyo i ysgolion. Defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn ysgolion i ariannu gorwariant yr ysgolion, gan alluogi'r Cyngor i drosglwyddo'r tanwariant gwasanaethau a chorfforaethol i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

5 Mae'r ffigur ar gyfer y gostyngiad canranol y pen yn wahanol i'r gostyngiad mewn cyllid craidd yn 2013 - 14 oherwydd yr amrywio yn y boblogaeth a welwyd yn ystod yr un cyfnod.

58 Roedd strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2015 - 16 yn cynnwys defnyddio £500,000 o'r balansau cyffredinol. Fodd bynnag, ni fu angen i'r Cyngor ddefnyddio'r balansau hyn, ac felly byddant yn cael eu defnyddio fel rhan o'r strategaeth ariannol a gynlluniwyd ar gyfer 2017 - 18.

59 Cyflawnodd y Cyngor 91% o'r arbedion a gynlluniodd ar gyfer 2015 - 16 ac mae'n disgwyl cyflawni'r rhan fwyaf o'r 9% sy'n weddill yn 2016 - 17. Mae cynlluniau arbedion wedi eu hymgorffori yn y gyllideb sylfaenol ac maent yn rhan o'r broses o fonitro'r gyllideb. Mae'r adroddiadau monitro cyllideb rheolaidd i'r Cabinet yn cynnwys adran ar gyflawni arbedion, a phan nodir problemau o ran cyflawni cynigion ar gyfer gwneud arbedion, darperir naratif esboniadol.

60 Mae proses y Cyngor ar gyfer nodi arbedion yn esblygu a mabwysiadwyd dull newydd sy'n cynyddu cyfranogiad aelodau ar gyfer cynllun 2015 - 16. Nododd y rhaglen Rhyddid a Hyblygrwydd arbedion ar gyfer cyfnod o ddwy flynedd drwy ganolbwyntio ar yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud, dadansoddi ei wariant, a nodi a yw'n ddarpariaeth statudol, yn unol â blaenoriaeth gorfforaethol, neu'n ddewisol.

## Trefniadau cynllunio ariannol

## Mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol effeithiol ond mae angen iddo ddatblygu dull corfforaethol o gynhyrchu incwm

### Nodweddion cynllunio ariannol da

61 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn elfen allweddol o fframwaith cynllunio corfforaethol effeithiol, integredig. Dylai gwaith cynllunio ariannol tymor canolig a gwaith cyllidebu blynyddol da adlewyrchu amcanion a blaenoriaethau strategol y cyngor ar gyfer y flwyddyn, ac yn y tymor hwy. Fel arfer mae Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig yn cwmpasu cyfnod o rhwng tair a phum mlynedd a dylent nodi sut y caiff adnoddau eu neilltuo ar gyfer darparu gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethau'r cyngor. Dylid ystyried yr effaith ar ddinasyddion a rhanddeiliaid eraill hefyd.

62 Mae Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig da yn cynnwys ystyriaeth o'r risgiau ariannol allweddol ynghyd â sut i'w lliniaru. Mae'n rhaid i gynghorau lunio tybiaethau ynghylch chwyddiant, lefelau incwm, demograffeg, y galw am wasanaethau yn y dyfodol a chostau darparu gwasanaethau, ac mae angen seilio'r rhain ar ragfynegiadau rhesymol. Dylai'r cyngor hefyd ddefnyddio gwaith modelu ariannol er mwyn asesu'r effeithiau tebygol ar gynlluniau ariannol ac arbedion gofynnol ar gyfer amrywiaeth o wahanol senarios a risgiau. Dylid adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn aml a'i ddiweddaru er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran tybiaethau a risgiau.

63 Dylai cynghorau weithredu o fewn lefel o gronfeydd wrth gefn a balansau (gan gynnwys cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a balans y gronfa gyffredinol), a gymeradwywyd gan yr Aelodau, ac sy'n briodol i'r risgiau strategol, gweithredol ac ariannol y maent yn eu hwynebu. Dylai Cynghorau gynnwys manylion am y ffordd y caiff cronfeydd wrth gefn eu defnyddio dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

64 Rhaid i'r cyngor ddangos ei fod yn deall ei ffynonellau incwm a'r risgiau sy'n deillio ohonynt, a'i fod wedi adolygu ei ymagwedd tuag at ffioedd a thaliadau am ei wasanaethau, er mwyn cyflawni gwerth am arian.

**Yr hyn a nodwyd gennym**

65 Yn ein hadolygiad 2015 - 16, nodwyd fod gan y Cyngor reolaethau effeithiol er mwyn sicrhau bod ei brosesau a'i reolaeth ariannol yn gadarn, ond bod angen cryfhau ei ddull o gynhyrchu incwm.

66 Yn ein hadolygiad 2016 - 17, nodwyd fod y Cyngor yn parhau i fod â fframwaith cynllunio ariannol effeithiol ond nad oes ganddo bolisi cynhyrchu incwm ffurfiol o hyd.

67 Mae cysylltiadau da rhwng prosesau cynllunio ariannol corfforaethol a thymor canolig y Cyngor. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor a sut y byddant yn cael eu hariannu. Mae CATC y Cyngor yn cysylltu â chynlluniau'r gwasanaethau a'r cynllun corfforaethol ac â'r blaenoriaethau a benwyd yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb.

68 Mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn dangos rhai o’r dulliau sydd gan y Cyngor o ystyried effaith tymor hir ei benderfyniadau cyllidebol, e.e. asesiadau ar effaith a monitro effaith penderfyniadau cyllidebol ar ôl eu gweithredu.

69 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn gyfredol. Mae diweddariad ffurfiol sy’n dwyn y CATC ymlaen yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet bob hydref. Caiff rhagdybiaethau cynllunio ariannol tymor canolig eu hadolygu a’u cyfleu’n gyson er mwyn ystyried newidiadau mewn newidynnau allweddol a materion eraill sy’n datblygu.

70 Mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cwmpasu cyfnod o bedair blynedd. Mae rhagamcanion y CATC yn gynhwysfawr ac yn cynnwys dadansoddiad o sensitifrwydd ac maent wedi eu modelu ar ystod o sefyllfaoedd. Mae’r CATC ar gyfer y cyfnod 2017 - 18 i 2019 - 20 yn nodi bwlch cyllidebol o £26 miliwn. Mae’r Cyngor wedi nodi arbedion dangosol o £3.6 miliwn dros y cyfnod ac yn bwriadu defnyddio £3.5 miliwn o gronfeydd wrth gefn cyffredinol, gan adael bwlch cyllidebol o £19 miliwn.

71 Mae’r CATC yn cynnwys rhai arbedion dangosol ar gyfer gweddill oes y CATC, ond nid yw’r Cyngor wedi nodi’n llawn eto sut y bydd yn cwrdd â’r bwlch cyllidebol a ragwelir.

72 Ategir y CATC hefyd gan dybiaethau rhesymol a phriodol ar gyfer newidynnau allweddol megis dyfarniadau cyflog, chwyddiant prisiau, lefelau ariannu a lefelau treth y cyngor. Asesir hefyd effaith y newidiadau demograffig, newidiadau yn y galw ac ymrwymiadau hysbys.

73 Ddiwedd 2015 - 16, roedd gan y Cyngor tua £7.6 miliwn fel balans gweithredol yn ei gronfa gyffredinol wrth gefn. Caiff cronfeydd wrth gefn a balansau eu hadolygu’n flynyddol fel rhan o’r broses o osod y gyllideb ac mae’r adroddiad gyllideb flynyddol a’r CATC yn nodi defnydd arfaethedig o’r cronfeydd wrth gefn yn ystod cyfnod y CATC.

74 Nid oes gan y Cyngor bolisi cronfeydd wrth gefn penodol ond caiff ei brotocol ar gyfer cronfeydd wrth gefn ei nodi'n glir yn Rheoliadau Ariannol y Cyngor, ac mae'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Ers 2015 - 16 mae strategaeth gyllideb y Cyngor yn cynnwys y defnydd arfaethedig o falansau cyffredinol; ni ddefnyddiodd y Cyngor yr arian ychwanegol yn 2015 - 16 ond yn hytrach bydd yn defnyddio'r balansau hyn sydd heb eu defnyddio fel rhan o strategaeth gyllideb 2017 - 18. Yn ystod 2015 - 16, sefydlodd y Cyngor gronfa wrth gefn o £1.5 miliwn ar gyfer cyflawni'r gyllideb. Mae bron i £500,000 o'r gronfa wrth gefn hon ar gael er mwyn lliniaru oedi wrth gyflawni arbedion a fwriadwyd ar gyfer 2016 - 17.

75 Fel yr adroddwyd yn 2015 - 16, nid oes gan y Cyngor bolisi corfforaethol ar gynhyrchu incwm a chodi tâl. Mae'r cyfrifoldeb am asesu a gosod taliadau yn cael ei ddatganoli i Benaethiaid Gwasanaethau ac er bod ffioedd a thaliadau'n cael eu hadolygu fel rhan o broses y gyllideb, gellir colli cyfleoedd heb fod polisi corfforaethol yn ei le. Mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod dull gweithredu mwy cyson rhwng gwasanaethau trwy gasglu data ffioedd a thaliadau fel rhan o broses cyllideb 2017 - 18.

76 Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer adrodd ar gynnydd yn erbyn y gyllideb, ond gellid cryfhau adroddiadau cyllid misol trwy gynnwys diweddariadau ar lefelau'r cronfeydd wrth gefn a'r defnydd ohonynt. Byddai hyn yn galluogi aelodau i fod yn ymwybodol o lefelau'r cronfeydd wrth gefn, ac yn rhoi cyfle iddynt eu herio trwy gydol y flwyddyn.

## Cynllun Arbedion 2016 - 17

## Mae'r Cyngor yn rhagweld ei fod yn debygol o gyflawni 70% o'r arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2016 - 17 yn ystod y flwyddyn ac mae trefniadau monitro priodol yn eu lle; mae cynigion arbedion wrth gefn wedi eu paratoi petai angen amdanynt

### Nodweddion cynllun arbedion da

77 Mae gan gynghorau sy'n cyflawni arbedion yn effeithiol gynlluniau arbedion a ystyriwyd yn drwyadl sy'n rhan o strategaethau arbedion tymor hwy a ategir gan gynlluniau arbedion a chyflawni unigol datblygedig sydd wedi'u costio'n llawn sydd ac sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Dylai cynigion ar gyfer gwneud arbedion fod yn rhai penodol a dylid cynnal asesiad risg ohonynt er mwyn nodi pa mor debygol ydyw y cânt eu cyflawni.

### Yr hyn a nodwyd gennym

78 Yn ein hadolygiad 2015 - 16 nodwyd fod cynlluniau a threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni arbedion yn y dyfodol yn addas at y diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol.

79 Yn adolygiad 2016 - 17 gwelsom fod y ganran o arbedion sy'n debygol o gael ei chyflawni yn ystod y flwyddyn yn gostwng, gan awgrymu gwendid wrth asesu risgiau ymarferoldeb cyflawni arbedion, er bod trefniadau monitro yn parhau i fod yn gadarn. Mae gan y Cyngor gynigion arbedion amgen dan ystyriaeth. Mae ein canfyddiadau isod.

80 Mae'r Cyngor wedi nodi cynlluniau arbed er mwyn gwireddu'r arbedion sydd eu hangen ar gyfer 2016 – 17. Mae wedi dosbarthu ei gynlluniau arbedion, wedi'u costio, yn arbedion effeithlonrwydd a gostyngiadau mewn cyllidebau technegol sydd ddim yn cael unrhyw effaith ar wasanaethau na'r cyhoedd; cyflawni, comisiynu a chaffael amgen; newidiadau yn lefel y gwasanaeth (gan gynnwys lleihau neu ddiddymu); a chynnydd mewn incwm. Hyd yma bu pwyslais y Cyngor ar arbedion effeithlonrwydd, gan gyfyngu ar effaith y toriadau ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Wrth iddi ddod yn fwyfwy anodd dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd, bydd lefelau digonol o arbedion trawsnewidiol yn helpu'r Cyngor ddatblygu dulliau cynaliadwy o ddarparu gwasanaethau sy'n cyflawni arbedion parhaus.

81 Roedd yr adroddiad monitro ariannol diweddaraf i'r Cabinet yn rhagweld mai dim ond 70% o gynlluniau arbedion y Cyngor ar gyfer 2016 - 17 fydd yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn; bydd 25% arall yn cael eu gohirio a byddant yn cael eu cyflawni yn 2017 - 18.

82 Fis Medi, cymeradwyodd y Cabinet y defnydd o gronfeydd wrth gefn a thanwariannau'r gyllideb gorfforaethol er mwyn lliniaru effaith arbedion a nodwyd fel rhai wedi'u gohirio ac anghyraeddadwy. Er bod gan y Cyngor ddigon o arian wrth gefn a chyllideb gorfforaethol ar gael i ariannu'r diffyg yn arbedion 2016 - 17, mae disgwyliad y gallai'r diffyg gael ei liniaru gan danwariant gwasanaethau. Yn ogystal, os bydd angen, mae gan y Cyngor gynigion arbedion amgen mewn lle y gallai eu defnyddio yn hytrach na'r arbedion a gynlluniwyd yn wreiddiol. Bydd y Cyngor yn penderfynu a oes angen iddo ddefnyddio unrhyw un o'r cynigion arbedion wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

83 Mae risg cynigion arbedion y Cyngor yn cael ei asesu fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ac wrth fonitro yn ystod y flwyddyn. Er bod y risgiau sy'n ymwneud â'r gallu i ddarparu'r arbedion arfaethedig yn cael eu trafod fel rhan o'r broses o nodi a chymeradwyo arbedion, nid oes trefn ffurfiol ar gyfer graddoli risg yr arbedion yn ffurfiol yn unol â pha mor gyraeddadwy ydynt. Mae lle felly i'r Cyngor gryfhau ei ddull drwy ymgorffori proses ffurfiol o raddoli risg er mwyn nodi'r arbedion hynny sydd â mwy o risg o oedi cyn eu cyflawni neu o beidio'u cyflawni a chamau lliniaru cynaliadwy.

84 Mae Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cynnal ar bob cynnig arbedion sy'n effeithio ar ddinasyddion neu randdeiliaid, ond mae ansawdd yr asesiadau'n anghyson. Mae offeryn asesu effaith newydd, ar y we, yn mynd i'r afael â dyletswyddau'r Cyngor o dan y Ddeddf LlCD. Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei brosesau ymhellach drwy asesu effaith rhai o'r cynigion arbedion ar y cyhoedd wedi iddynt gael eu gweithredu.

85 Mae cynllun arbedion y Cyngor yn benodol, gan restru prosiectau arbedion unigol yn ôl gwasanaeth. Mae cynlluniau manylach yn sail i'r cynllun arbedion.

86 Mae trefniadau monitro effeithiol ar gyfer rheoli arbedion. Mae adroddiadau misol i'r Cabinet yn nodi a yw'r arbedion wedi eu cyflawni, ar y gweill, wedi'u gohirio neu heb eu cyflawni. Pan na fydd yr arbedion yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn, darperir naratif byr yn nodi manylion y camau lliniaru arfaethedig.

87 Samplwyd tri o gynnigion arbedion 2016 - 17 er mwyn profi'r rhagdybiaethau sylfaenol ac a oes mecanwaith digonol mewn lle i sicrhau y gallant gael eu cyflawni o fewn yr amserlen a gynlluniwyd, sef:

a gwasanaeth CCTV - £200,000 (lleihau/diddymu'r gwasanaeth);

b cael mwy o drigolion i fanteisio ar y cynllun gwastraff gwyrdd - £75,000 (cynhyrchu incwm); a

c strategaeth llety - £258,000 (arbediad effeithlonrwydd).

88 Ym mhob achos roedd yr arfarniadau o opsiynau'n seiliedig ar ragdybiaethau rhesymol, roedd gan y cynlluniau cyflawni raddfeydd amser clir ac roedd prosesau cymeradwyo ac ymgynghori priodol yn cefnogi'r cynigion. Mae'r arbediad Strategaeth Llety wedi cael ei ohirio, ond mae'r Cyngor yn hyderus y bydd yn cael ei gyflawni'n llawn yn 2017 - 18.

## Mae'r Cyngor yn parhau i gryfhau ei ddull o reoli a defnyddio'i weithlu drwy fod ag ymagwedd effeithiol tuag at gynllunio gweithlu a datblygu arweinyddiaeth, a gefnogir gan bolisïau a chanllawiau clir

89 Mae gan y Cyngor ddull clir o gynllunio gweithlu, datblygu arweinyddiaeth, hyfforddiant a datblygiad, ac elfennau allweddol eraill sy'n cefnogi rheolaeth effeithiol o'r gweithlu.

90 Mae'r gwasanaeth Adnoddau Dynol (AD) wedi gwella'n sylweddol ers 2012 a bu cryfhau ei ddull, o fod yn wasanaeth i gyfarwyddiaethau penodol i wasanaeth canolog cydlynol yn newid allweddol. Mae'r dull hwn yn darparu cyngor ac arweiniad cyson trwy fodel partneriaid busnes, a gefnogir gan arbenigwyr a thîm o Gynorthwywyr AD. Nod y gwasanaeth Adnoddau Dynol yw parhau â'i gynnydd cadarnhaol gan sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth da, hyblyg, effeithlon i reolwyr. Mae AD yn gweithredu ar y lefel strategol ac yn cael ei ystyried yn bartner yr ymddiriedir ynddo yn agenda trawsnewid gwasanaethau'r Cyngor.

91 Mae gan y Cyngor dîm AD corfforaethol profiadol sydd wedi hen sefydlu ac sy'n cynnwys staff a gweinyddwyr adnoddau dynol cymwys. Mae gan y tîm arweinyddiaeth broffesiynol gref a chaiff ei gefnogi'n dda gan uwch arweinwyr. Mae staff yn hapus iawn gydag ansawdd y gwasanaeth Adnoddau Dynol y maent yn ei dderbyn. Mae'r tîm Adnoddau Dynol yn cael ei ddefnyddio'n hyblyg er mwyn cefnogi gwasanaethau sy'n ymgymryd â newid sylweddol. Mae partneriaid busnes yn gysylltiedig â phob maes gwasanaeth ac yn mynychu cyfarfodydd Timau Rheoli Adrannol yn rheolaidd. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion a heriau'r gwasanaeth yn ei gyfan gwbl a sut y gall AD gefnogi gwaith y gwasanaeth. Er nad yw Pennaeth y Gwasanaeth yn arbenigwr AD, mae'r gwasanaeth yn cael ei staffio gan aelodau tîm gwybodus sy'n cael eu harwain gan reolwr gwasanaeth medrus.

92 Fel y soniwyd uchod, mae gan y Cyngor drefniant model partner busnes ar gyfer AD a gefnogir gan staff arbenigol sy'n darparu cyngor penodol, cynorthwywyr AD ac uned sy'n cael ei staffio'n ddyddiol ar sail rota. Elfen allweddol o'r model yw ffocws ar Gyswllt AD, adran ar fewnrwyd y Cyngor sy'n caniatáu mynediad at ddiweddaru polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau, rhai ohonynt yn rhyngweithiol; gyda'r bwriad o ddatblygu rhyngweithioldeb polisïau. Mae rheolwyr yn cael mynediad i bolisïau trwy Gyswllt AD yn bennaf. Mae AD yn annog staff i ymweld â Cyswllt AD, ac a oes angen rhagor o gyngor mae staff adnoddau dynol ar gael i ddarparu cymorth o'r fath. Mae'r model yn gweithio'n dda ar gyfer y Cyngor ac mae disgwyliad clir ar reolwyr (ar bob lefel) i reoli materion adnoddau dynol, trwy gael mynediad i bolisïau a gweithdrefnau, a thrwy gael cefnogaeth y gwasanaeth adnoddau dynol yn ôl yr angen. Mae rheolwyr yn cael eu hyfforddi i ymgymryd â chyfrifoldebau rheoli llinell. Mae llinellau atebolrwydd ar gyfer materion adnoddau dynol yn glir ac yn ddealladwy.

93 Mae gan y Cyngor ystod briodol o bolisïau Adnoddau Dynol ac maent ar gael yn gyffredinol i staff. Mae cofnod o ddogfennau ar gael sy'n rhestru enw'r ddogfen, y math o ddogfen (polisi, canllaw ac ati), maes polisi, perchennog y ddogfen, dyddiad gweithredu, dyddiad yr adolygiad diweddaraf, a dyddiad yr adnewyddiad nesaf. Adolygir cynnwys y polisïau'n rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â newidiadau mewn deddfwriaeth ac roedd y rheolwyr a gyfwelwyd yn nodi bod polisïau'n gynhwysfawr a dealladwy. Mae polisïau'n cyfeirio'n briodol at amrywiadau sy'n deillio o wahaniaethau yn y gwasanaethau e.e. staff mewn ysgolion, ac mae gan Cyswllt AD dudalen ar wahân sy'n caniatáu mynediad uniongyrchol at bolisïau sy'n gysylltiedig ag ysgolion. Mae gan uwch reolwyr ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau a'r prosesau hyn.

94 Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor ddigon o sicrwydd ynglŷn ag i ba raddau mae gwasanaethau bob amser yn cydymffurfio â'r polisïau hyn. Mae AD yn ganolog yn cadw ffeiliau electronig ar gyfer pob gweithiwr unigol, ond mae rheolwyr gwasanaeth yn cadw ffolderi unigol ar gyfer gweithwyr, a allai, o bosibl danseilio cyfrinachedd.

95 Mae gan AD a'r gyflogres systemau TG ar wahân ac anghydnaws â'i gilydd, ac er bod AD wedi ceisio lliniaru problemau anghysondeb data posibl rhwng  system iTrent AD a system cyflogres y Cyngor drwy ddarparu adroddiadau data rheolaidd i staff y gyflogres, nid yw hyn yn llwyr ddileu'r perygl o ddata anghywir yn cael ei gynnwys ar naill system neu'r llall.

96 Gyda ffocws cynyddol ar i wybodaeth fod yn hygyrch trwy'r fewnrwyd, mae'n bosibl y bydd problem gynyddol o ran sut y gall cyflogeion sydd ag ychydig neu ddim mynediad i'r fewnrwyd gael mynediad hawdd i ddogfennau AD. Mae'r Cyngor yn ystyried gwneud gwybodaeth yn hygyrch drwy ddarpariaeth allrwyd, ond mae hyn ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hwy. Roedd tystiolaeth anecdotaidd gan rai staff y buom yn siarad â nhw yn awgrymu bod amrywiadau o ran trefniadau gweithio hyblyg a'u bod yn cael eu gweithredu'n anghyson o ran gweithwyr rheng flaen sydd ddim yn gweithio o swyddfa.

97 Mae’r Cyngor wedi gweithredu cynlluniau datblygiad personol ‘y Trywydd Iawn,’ sy’n galluogi gweithwyr i nodi meysydd i’w datblygu, cymwyseddau ac ymddygiad sy’n ofynnol er mwyn datblygu eu gyrfaoedd ar hyd y trywydd perthnasol. Bweriedir gwneud gwaith pellach ar gynlluniau datblygu hyfforddiant manwl ar gyfer gwasanaethau fel bod gweithwyr yn glir am y dilyniant ar hyd eu llwybr gyrfa dewisol.

98 Mae rheolwyr yn rhoi blaenoriaeth i werthusiadau, a disgwylir i bob aelod o staff gael gwerthusiad blynyddol. Disgwylir amcanion clir, ond mae’r Cyngor wedi nodi anghysondebau fydd yn cael eu datrys drwy hyfforddiant a chyflwyno proses sicrhau ansawdd fydd yn darparu her a chymedroli ar bob lefel. Mae prosesau gwerthuso’n gadarn i’r graddau bod eu cwblhad blynyddol yn cael ei fonitro a’i adrodd yn rheolaidd i gyfarfodydd timau rheoli adrannol a thrwy’r broses herio gwasanaethau. Mae’r lefel cyflawniad yn 96%.

99 Mae’r Cyngor yn ystyried nifer y cynlluniau galluoedd a gwella perfformiad staff fel arwydd cadarnhaol o hyder a sgiliau rheolwyr wrth ddelio â materion o’r fath. Yn y gorffennol ystyriai’r Cyngor ddiffyg cynlluniau o’r fath yn fater negyddol, gan ei fod yn cuddio problemau ac yn dangos diffyg awydd a/neu hyder y rheolwyr ar y pryd i ddelio â sefyllfaoedd anodd a heriol.

100 Mae presenoldeb yn y gwaith cael ei reoli’n effeithiol gyda rolau a chyfrifoldebau gweithwyr, rheolwyr, AD a iechyd galwedigaethol yn cael ei nodi’n glir yn y ddogfen bolisi, sy’n cynnwys siart llif syml sy’n dangos y prif gamau sydd angen eu cymryd. Mae AD yn darparu data i reolwyr am lefelau presenoldeb, tueddiadau, a sbardunau ar gyfer gweithredu pellach.

101 Mae swyddog Iechyd Galwedigaethol arbenigol sy’n cefnogi rheolaeth weithredol absenoldebau tymor hir a dychwelyd i’r gwaith. Mae Swyddog Iechyd a Lles wedi ei benodi’n ddiweddar, ac mae gwasanaeth cwnsela ar gael i gynorthwyo’r rhai sy’n dychwelyd i’r gwaith. Er bod lefelau absenoldeb ymysg yr isaf ymhlith cynghorau Cymru, ar hyn o bryd mae’r cyflawniad yn erbyn y targed ar gyfer lefelau absenoldeb wedi ei raddio’n ‘goch’ gan y Cyngor sydd wedi gosod ei lefel darged yn gyfartal â’r sector breifat

102 Mae'r Cyngor yn ymgymryd â chynllunio gweithlu effeithiol. Mae ganddo ddogfen hawdd i'w darllen sy'n disgrifio'r broses cynllunio gweithlu ynghyd â thempled cynllunio gweithlu er mwyn hel gwybodaeth am y gweithlu presennol, gweithlu'r dyfodol, dadansoddi bylchau, a chrynhoi'r gwasanaeth. Mae cynllun gweithlu gwasanaeth yn ystyried y tymor byr-canolig, a'r cynllun gweithlu corfforaethol yn ymdrin â'r materion strategol/tymor hwy gan gynnwys cynaliadwyedd.

103 Mae cynllun gweithlu corfforaethol 2015 - 16 yn cefnogi'r Cynllun Corfforaethol. Mae ganddo gynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar bedwar maes allweddol: Datblygu Capasiti Arweinyddol, Adnoddu, Datblygu Sgiliau a Chapasiti'r Gweithlu, a Datblygu fel Sefydliad. Mae gan yr holl wasanaethau gynlluniau gweithlu cynhwysfawr ac mae gan reolwyr ran yng nghynllunio'r gweithlu. Mae'r cynlluniau gweithlu yn cysylltu â chynlluniau busnes ac mae materion ynglŷn â'r gweithlu'n cael eu cynnwys mewn cynlluniau busnes ac mewn heriau i'r gwasanaethau.

104 Mae'r Cyngor yn bwriadu gweithredu fframwaith olyniaeth strwythuredig. Mae'r Cyngor yn falch bod y tri Phennaeth diweddaraf a benodwyd yn llwyddiannus wedi bod ymgeiswyr mewnol (er nad oedd y swyddi wedi'u clustnodi ar gyfer ymgeiswyr mewnol o reidrwydd). Ar hyn o bryd mae cynllunio dilyniant yn cael ei drefnu mewn ffordd mwy anffurfiol/i bwrpas penodol yn hytrach nac yn ôl dull ffurfiol/strwythuredig. Fodd bynnag, mae lefel staff y Cyngor sy'n siarad Cymraeg yn 'isel' (14.67%) o'i gymharu â phoblogaeth y sir (24%), ac nid oedd yn glir sut mae'r Cyngor yn mynd i ddatrys hyn.

105 Ymddengys bod y berthynas gydag undebau llafur yn un broffesiynol a phriodol gyda threfniadau ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer trafod a dadlau. Cynhelir arolygon staff bob dwy flynedd, ac mae cyfle i staff gynnig awgrymiadau ar gyfer gwella, gan gynnwys drwy gyfrwng y fewnrwyd.

## Mae trefniadau gweithredol rheoli asedau'n ddigonol, ond nid yw'r ymagwedd strategol tuag at reoli asedau yn gadarn eto

106 Hyd yma, mae penderfyniadau rheoli asedaun yn tueddu i gael eu llywio gan faterion gweithredol, megis prydlesi'n dod i ben ac ymrwymiadau atgyweirio, yn hytrach na gan strategaethau gweithlu. Mae arwyddion, fodd bynnag, bod cynllunio'r gweithlu yn dechrau cael mwy o ddylanwad ar ddull y Cyngor o reoli asedau.

107 Nododd Pennaeth newydd Gwasanaeth Rheoli Asedau'r Cyngor nifer o faterion allweddol:

- a dealltwriaeth wael ar draws y sefydliad o rôl y Landlord Corfforaethol, ac o drefniadau llywodraethu a phrosesau ar gyfer rheoli asedau;
- b diffyg strategaeth rheoli asedau cyffredinol, ac ansawdd amrywiol o ran y cynlluniau rheoli asedau gwasanaethau;
- c prosesau heb eu hadolygu ers sawl blwyddyn ac sydd ddim yn adlewyrchu newidiadau sefydliadol diweddar; a
- ch dogfennaeth wedi dyddio, a'r angen i ddefnyddio iaith mwy 'busnes gyfeillgar' wrth gyfathrebu.

108 Mae problemau capasiti a chyfyngiadau cyllidebol wedi cael effaith andwyol ar allu'r Cyngor i reoli ei asedau eiddo. Ychydig o gynnydd a fu o ran gweithredu'r polisi cynnal a chadw cynlluniedig ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod y gwaith atgyweirio sydd wedi hel yn adlewyrchiad o flynyddoedd lawer o fuddsoddiad annigonol. Nid yw rhai o dyddynnod tenantiaid y Cyngor wedi cael digon o fuddsoddiad cyfalaf er mwyn cynnal gwerth yr asedau.

109 Mae dull y Cyngor o reoli tir ac asedau eiddo wedi helpu i leddfu'r pwysau ariannol y mae wedi'u hwynebu. Mae gostyngiad ym maint yr ystâd wedi rhyddhau cyfalaf, lleihau costau cynnal a chadw a darparu arbedion effeithlonrwydd. Fodd bynnag, nid yw rheoli asedau wedi'i alinio'n effeithiol â'r strategaeth ariannol tymor canolig a dim ond ym manylion arbedion ar lefel gwasanaeth y cynhwysir y cyfraniad y disgwylir i reoli asedau ei wneud er mwyn lleihau costau.

110 Nid yw dull y Cyngor o reoli asedau ar y cyd yn ddigon datblygedig. Mae wedi cydweithio â phartneriaid pan fo hynny o fudd i'r ddwy ochr, ond mae'r mentrau hyn yn oportiwnistaidd yn hytrach nac o ganlyniad i gynllunio tymor canolig neu hir-dymor ar y cyd. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol wrth reoli ei asedau ac yn parhau i gryfhau ei drefniadau, megis gwella ei ymgysylltiad â thenantiaid masnachol. Fodd bynnag, mae Pennaeth newydd y Gwasanaeth Rheoli Asedau yn cydnabod yr angen i weithredu'n fwy cydweithredol ac yn fwy entrepreneuraidd, er mwyn ei wneud mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

111 Hyd nes yn ddiweddar, roedd gan y Cyngor ddull adweithiol o reoli perfformiad ei asedau tir ac eiddo. Mae bellach wedi mabwysiadu dull mwy rhagweithiol o fonitro a rheoli perfformiad, ond mae lle i gryfhau'r dull o adrodd ar berfformiad a'i ddefnyddio i lywio penderfyniadau.

112 Arweiniodd adolygiad o ystâd amaethyddol y Cyngor gan grŵp gorchwyl a gorffen arwain at resymoliad mwy cadarn o'r ystâd, gan gynnwys mwy o barodrwydd i gael gwared ar safleoedd sydd heb fod yn rai strategol, a lleihad yn y gwaith cynnal a chadw sy'n aros am ei wneud. Mae'r Cyngor yn ail-fuddsoddi yn y gwaith cynnal a chadw ar y tyddynnod sy'n weddill, ac mae'r cynghorwyr yn derbyn nad yw'r sail resymegol wreiddiol dros gadw tyddynnod fel ffynhonnell o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth yn ddilys bellach.

113 Nid oes gan y Cyngor strategaeth rheoli asedau corfforaethol gyfredol, na pholisi caffael a gwaredu. Roedd gan strategaeth 2009 - 10 i 2014 - 15 sydd bellach wedi dod i ben, ymagwedd draddodiadol iawn at reoli asedau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn awr yn ymgynghori ar strategaeth rheoli asedau newydd gyda'r nod o fynd i'r afael â'r diffygion hyn.

## Mae staff yn derbyn cefnogaeth TGCh effeithiol, ond mae potensial pellach i hyrwyddo defnydd ehangach o dechnoleg er mwyn creu arbedion effeithlonrwydd ar draws y Cyngor

114 Mae gan y Cyngor Adran TGCh, sy'n cael ei harwain gan reolwr profiadol a chymwys ac a gefnogir gan dîm rheoli cydlynus gydag ystod amrywiol o sgiliau a phrofiad. Mae gan y tîm rheoli TGCh aelodau sy'n canolbwyntio ar gyflawni gwaith technegol ynghyd â rhai sydd â'r gwaith o gysylltu â thimau eraill yn y Cyngor fel partneriaid busnes dynodedig. Ymddengys bod y ddwy swyddogaeth hon yn cefnogi'i gilydd ac yn cydweithio'n dda. Mae gan y gwasanaeth TGCh hanes hir a chryf o ddiwallu anghenion defnyddwyr. Mae parch mawr i'r gwasanaeth gan ei ddefnyddwyr yn y Cyngor, ac mae'n ymateb yn dda i'w hanghenion technoleg. Er enghraifft mae'r gwasanaeth wedi cefnogi cyflwyno systemau rheoli tai newydd yn llwyddiannus.

115 Mae'r dull partner busnes TGCh yn ymddangos i fod yn effeithiol, ac mae ganddo'r potensial i fod yn ffordd dda o hybu gwelliant, ond ar hyn o bryd dim ond mewn nifer cyfyngedig o adrannau darparu gwasanaeth mae'r dull hwn yn weithredol. Mae nifer o adrannau mawr yn dal i reoli eu cefnogaeth TG ei hun, fel ag y mae ysgolion. Mae lle i ddatblygu o ran dod â'r rhain i mewn i'r gwasanaeth TG canolog. O ran egwyddor, mae angen i'r Pennaeth TGCh gytuno i bob pryniant technoleg, ond yn ymarferol nid yw hyn bob amser yn digwydd, fel er enghraifft gyda'r systemau Contact 360 a mân ddyledwyr. Mae adroddiad Archwiliad Mewnol diweddar yn nodi nad yw trefniadau cyfredol bob amser yn cynnwys TGCh i raddau digonol wrth gaffael a gweithredu systemau newydd. Mae'r trefniadau presennol wedi rhoi gormod o reolaeth i reolwyr brwdfrydig sydd wedi arwain at gamgymeriadau wrth gaffael ac mae'n aneglur a ellir bob amser ddangos gwerth am arian.

116 Nid yw Strategaethau TG a Gwybodaeth y Cyngor yn cysylltu'n dda â'i gilydd nac â'r Strategaeth Gorfforaethol. Felly, nid yw bob amser yn glir sut y disgwylir i'r gwasanaeth TGCh gyfrannu at a chefnogi nodau corfforaethol. Mae gan y Cyngor hefyd strategaeth ddigidol sy'n canolbwyntio ar wasanaeth i gwsmeriaid ac yn arbennig, botensial technoleg ddigidol er mwyn helpu i drawsnewid gwasanaethau a dulliau o gysylltu â chwsmeriaid. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhan o gylch gwaith presennol y gwasanaeth TGCh, ac ychydig iawn o ran fu gan y gwasanaeth yn ei ddatblygiad. Felly, er bod y rôl Pennaeth TGCh yn cynnwys trawsnewid mewn enw, nid yw'r gwasanaeth TGCh mewn sefyllfa i gyfrannu'n llawn i hyn.

## Mae'r Cyngor yn datblygu ei ddull o reoli gwybodaeth, gyda rhai mentrau da ar y gweill, ac mae cyfleoedd i ddatblygu strategaeth wybodaeth fwy cadarn ac integredig

117 Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu gwybodaeth yn eu lle gydag Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) a hyfforddwyd yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau presennol yn cynnwys yr ystod ddisgwyliedig o staff o bob rhan o'r sefydliad, ac nid ydynt yn cyrraedd y lefelau presenoldeb a ddisgwylir yn ôl safonau rhyngwladol. Mae'n bosibl bod hyn yn gwanhau trefniadau, er bod y trefniadau llywodraethu gwybodaeth cyfredol yn ymddangos i weithio'n effeithiol ar gyfer materion gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar gydymffurfio. Fodd bynnag, ni all y trefniadau hyn roi ystyriaeth lawn i anghenion y busnes am wybodaeth gan nad ydynt yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau. Felly, nid oes cyfle i'r gwasanaethau fwydo'u gofynion am wybodaeth nac helpu i ffurfio'r strategaeth wybodaeth ar gyfer y dyfodol.

118 Mae perfformiad sy'n ymwneud â thor-rheolau a phrosesu ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a'r Ddeddf Diogelu Data (DPA) ac yn cael eu hadrodd mewn adroddiad SIRO blynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn ddull effeithiol o adrodd yn flynyddol ar faterion allweddol o gydymffurfiaeth. Ni fu unrhyw dor-rheolau sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er bod y Cyngor, o ganlyniad i faterion blaenorol gyda rhai gwasanaethau, wedi cynyddu ei ffocws ar gefnogaeth i'r meysydd hyn. Mae'r Cyngor yn prosesu dros 90% o'i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data o fewn yr amser gofynnol.

119 Mae'r Cyngor yn cynnal cyrsiau hyfforddi DPA/FOIA rheolaidd gan ddefnyddio dulliau e-ddysgu. Mae hefyd yn darparu sesiynau ystafell ddosbarth mwy manwl ar gyfer grwpiau o staff sy'n ymdrin â mwy o geisiadau am wybodaeth, megis gofal cymdeithasol ac addysg. Mae'r hyfforddiant e-ddysgu wedi cyrraedd 96% o'r staff ac mae presenoldeb yn cael ei gofnodi'n ganolog, gan ei gwneud yn bosibl targedu cyrsiau newydd a chyrsiau gloywi'n gywir. Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu hyfforddiant ar gyfer rheoli cofnodion.

120 Mae Ystafell Bost Ddigidol y Cyngor a'r Swyddfa Cofnodion Digidol yn lleihau'r cynnydd yn y defnydd o bapur ac yn rheoli llif y wybodaeth i'r Cyngor yn effeithiol. Dim ond ers blwyddyn y bu'r Ystafell Bost Ddigidol ar waith, ond mae eisoes yn cael effaith sylweddol ar lif dogfennau drwy'r Cyngor. Mae'r Ystafell Bost Ddigidol yn sganio post sy'n dod i mewn ac yn ei roi yn y system rheoli cofnodion a dogfennau electronig (EDRMS). Anfonir e-bost yn cynnwys dolen i'r ddogfen at y derbynnydd. Cedwir yr eitem bost wreiddiol am dri mis ac wedyn caiff ei dinistrio. Felly mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r safon gyfreithiol ar gyfer sganio post.

121 Mae'n amlwg bod dibyniaeth y Cyngor ar ei system rheoli cofnodion a dogfennau electronig yn tyfu. Wrth i'r system ledaenu mae gostyngiad sylweddol o ran faint o bapur sydd yn y swyddfeydd. Mae'r dull hwn hefyd yn cefnogi'r strategaeth swyddfeydd a'r dull gweithio ystwyth a hyblyg. Bydd rhywfaint o newid yn ffocws y prosiect EDRMS yn 2017 gan y bydd hefyd yn edrych o ble y daw'r papur ac ar ragor o brosesau er mwyn cynhyrchu llai o bapur yn ogystal â digido'r papur sy'n cael ei ddefnyddio. Mae hwn yn gam cadarnhaol ymlaen.

# Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu arall a adroddwyd yn ystod 2016 - 17

Arddangosyn 3: Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu arall a adroddwyd yn ystod 2016-17

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Defnydd o adnoddau** | | | |
| Tachwedd 2016 | **Llythyr archwilio blynyddol 2015-16**<br>Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. | • Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau ynglŷn â chyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau.<br>• Nid oes tystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau wedi'i chyflwyno eto.<br>• Mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.<br>• Hyd yn hyn nid yw'r gwaith ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion o bwys a fyddai'n effeithio ar gyfrifon na systemau ariannol allweddol 2015 - 16. | Dim |
| **Cynlluniau ac adroddiadau gwella** | | | |
| Mal 2016 | **Archwiliad cynllun gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru**<br>Adolygiad o'r cynlluniau a gyhoeddwyd gan y Cyngor er mwyn cyflawni ei amcanion gwella. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella. | Dim |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio** | | | |
| Tachwedd 2016 | **Asesiad archwilio perfformiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** Adolygiad o asesiad cyhoeddedig y Cyngor o'i berfformiad. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol i adrodd ar welliant. | Dim |
| Gorffennaf 2016 | **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru** (AGGCC) Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref yng Nghymru - Cyngor Sir Ddinbych | Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref yng Nghymru - Cyngor Sir Ddinbych<br>**Dadansoddiad**<br>1. Nid yw'r awdurdod lleol wedi datblygu ei wybodaeth am y farchnad yn ddigonol, ac o ganlyniad, mae wedi paratoi datganiad o sefyllfa'r farchnad nad yw'n galluogi darparwyr i gynllunio eu rôl a'u swyddogaeth yn y dyfodol.<br>2. O ganlyniad mae darparwyr yn ansicr ynglŷn â'r ffordd mae pethau'n mynd, galw yn y dyfodol, adnoddau ar gyfer y dyfodol a sut y bydd yr awdurdod lleol yn cefnogi'r rhai sydd angen gofal a chymorth yn eu cartref.<br>3. Mae'r trefniadau ar gyfer comisiynu gofal cartref yn wan, gyda'r risg gyfatebol na fydd modd cynnal y model caffael cyfredol. Mae diwylliant wedi datblygu sy'n annog y cynnig isaf yn erbyn ffioedd dynodol, ac mae hyn wedi arwain at gontractau'n cael eu dyfarnu yn bennaf ar sail cost. Mae darparwyr wedi gwneud cynigion cynyddol is er mwyn sicrhau contractau, ac mae hyn wedi lleihau gwariant awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae hyn wedi bod ar draul sefydlogrwydd y farchnad, sydd fwyaf amlwg yn yr anawsterau wrth recriwtio a chadw staff sy'n dod i'r amlwg, mewn sector sydd eisoes yn wynebu heriau sylweddol wrth wneud maes gofal yn broffesiwn mwy deniadol. | Nododd yr adroddiad wyth o feysydd i'w hystyried<br>1. Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu ei strategaeth gomisiynu ar frys, os yw am fynd i'r afael â'r risgiau sylweddol i sefydlogrwydd y farchnad yn y sector gofal cartref.<br>2. Dysgu o arfer gorau sydd wedi cyflawni modelau comisiynu effeithiol mewn mannau eraill.<br>3. Mae gwybodaeth am y farchnad yn isddatblygedig, ac mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddeall yn well y ffactorau sy'n ganolog i'w rôl fel hwylusydd, a'r wybodaeth mae ei hangen ar ddarparwyr i gynnig cymhelliant, ac i annog buddsoddiad cynaliadwy mewn gwasanaethau gofal lleol.<br>4. Datblygu datganiad o sefyllfa'r farchnad sy'n wynebu'r farchnad.<br>5. Datblygu model ffioedd sy'n rhoi ansawdd gofal wrth ei galon, ac yn gwobrwyo darparwyr sy'n buddsoddi mewn recriwtio cynaliadwy, cadw staff a hyfforddi gweithwyr gofal. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | 4. O'r herwydd, mae perthynas fregus â darparwyr wedi datblygu, gyda rhai wrthi'n ystyried strategaeth ar gyfer gadael y farchnad.<br>5. Mae risgiau sylweddol i gynaliadwyedd y farchnad gofal cartref leol, ac mae hyn yn cael effaith ar bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau ar hyn o bryd, sy'n derbyn gwasanaeth cynyddol wael.<br>6. Mae gormod o ymweliadau 15 munud yn cael eu comisiynu gan yr awdurdod lleol, ac mae hyn yn gyrru disgwyliadau afrealistig i staff darparwyr roi cymorth i bobl o fewn amserlen nad yw'n rhoi nac urddas na pharch. | 6. Datblygu perthynas newydd â darparwyr fel partneriaid cydradd yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau gofal<br>7. Adolygu'r arfer o gaffael ymweliadau 15 munud ar gyfer diwallu anghenion gofal personol, a'r effaith ddilynol mae hyn yn ei chael ar bobl a'r rhai sy'n darparu gofal.<br>8. Datblygu cynlluniau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau, sy'n cydnabod cyfraniadau pawb sy'n cymryd rhan yn y gwaith o alluogi annibyniaeth pawb sy'n byw yn eu cartref eu hunain. |

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych tua'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir fel cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'.

Yn yr asesiad o welliant blynyddol, ystyrir pa mor debygol yw hi y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yr asesiad hefyd yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Staff Swyddfa Archwilio Cymru sy'n llunio'r adroddiad gwella blynyddol, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 o'r Mesur, drwy roi crynodeb o'i waith asesu ac archwilio mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19, sef cyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdod ac i Weinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), gan ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Dr Mohammed Mehmet
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1YN

28 Tachwedd 2016

Annwyl Dr Mehmet

## Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Ddinbych 2015 - 16

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud â chyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb Cyngor Sir Ddinbych yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau ein bod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cod hwn yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2016 cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol sy'n deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 28 Medi 2016, a bydd adroddiad mwy manwl yn dilyn maes o law.

## Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos hyd yn hyn neu lle y gellid gwneud gwelliannau, pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

## Nid wyf eto wedi cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau.

Ni ellir cwblhau'r archwiliad yn ffurfiol a chyhoeddi tystysgrif archwilio hyd nes y byddaf wedi cwblhau ystyried materion y tynwyd fy sylw atynt gan etholwr awdurdod lleol. Rwy'n fodlon nad yw'r materion hyn yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol.

## Hyd yma nid yw fy ngwaith o ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion o bwys a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2016-17 na systemau ariannol allweddol.

Bydd adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn dilyn yn 2017 pan fydd rhaglen gwaith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2015-16 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni ac a nodwyd yn y Cynllun Archwilio Blynyddol.

Yr eiddoch yn gywir

**Anthony Veale**

**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

copi i: Y Cynghorydd Hugh Evans - Arweinydd

# Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

Arddangosyn 3: argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Awst 2016 | Cydnerthedd Ariannol Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2015-16 | Yn ein hadroddiad ar gyfer 2014-15 (**Cydnerthedd Ariannol Cynghorau yng Nghymru**, Ebrill 2015), gwnaed sawl argymhelliad i awdurdodau lleol. Mae llawer o'r argymhellion hyn yn parhau i fod yn berthnasol ac mae angen i awdurdodau wneud gwaith pellach i ymdrin â hwy yn ystod 2016-17. Yn ogystal â hyn, gwnaed yr argymhellion canlynol yn seiliedig ar ein hadolygiad mwy diweddar:<br>A1 Dylai awdurdodau lleol atgyfnerthu eu trefniadau cynllunio ariannol drwy:<br>• ddatblygu cysylltiadau mwy eglur rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a'u cynlluniau gwasanaeth a'u blaenoriaethau corfforaethol;<br>• alinio strategaethau eraill allweddol fel cynlluniau rheoli'r gweithlu a rheoli asedau â'r CATC;<br>• datblygu cynlluniau arbed cynhwysfawr aml-flwydd ac ynddynt gostau llawn, sydd yn trafod ac yn sail ar gyfer cyfnod y CATC, nid ar gyfer y gyllideb flynyddol sydd ar ddod yn unig;<br>• rhannu cynigion arbed yn gategorïau fel bo modd monitro'r newid oddi wrth arbedion traddodiadol tuag at arbedion trawsnewidiol dros gyfnod y CATC; a<br>• sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer sicrhau arbedion penodol yn realistig, a bod atebolrwydd dros eu cyflawni wedi'i ddyrannu'n briodol.<br>A2 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu polisïau corfforaethol ar gyfer cynhyrchu incwm a chodi tâl.<br>A3 Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cronfeydd wrth gefn, sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig, ac effaith y rhain a'r defnydd ohonynt yn y CATC.<br>A4 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro'r CATC<br>A5 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cynlluniau arbed yn cynnwys digon o fanylion er mwyn sicrhau bod aelodau'n deall yn glir yr hyn y bwriedir ei gyflawni drwy'r cynlluniau, a bod modd craffu'n briodol ar y cynlluniau hynny drwy gydol y flwyddyn.<br>A6 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod digon o gapasiti a gallu corfforaethol i gefnogi cyflawniad y cynlluniau arbed yn y CATC ar y cyflymder angenrheidiol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2016 | Diogelwch Cymunedol yng Nghymru | Roedd angen i amrywiaeth o randdeiliaid – sef Llywodraeth Cymru, Tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru, comisiynwyr yr heddlu a throseddu, aelodau bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ac awdurdodau lleol – gymryd camau unigol ac ar y cyd er mwyn ymateb i'r saith argymhelliad yn yr adroddiad hwn:<br>A1 Gwella gwaith cynllunio strategol er mwyn cydgysylltu gweithgarwch ar gyfer diogelwch cymunedol yn well drwy gyflwyno strategaeth genedlaethol i ddisodli'r fframwaith cynllunio presennol, a chefnogi hynny â chynlluniau lleol a rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol cytunedig o ran diogelwch cymunedol.<br>A2 Gwella gwaith partneriaeth strategol drwy greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn ffurfiol i ddisodli strwythurau diogelwch cymunedol presennol. Dylai'r byrddau newydd hyn ffurfioli a chyfuno gwaith Llywodraeth Cymru, heddluoedd, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill.<br>A3 Gwella gwaith cynllunio drwy greu cynlluniau gweithredu cynhwysfawr sy'n trafod gwaith yr holl bartneriaid, ac yn nodi'n glir sut y gellir cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer diogelwch cymunedol, yn lleol ac yn rhanbarthol.<br>A4 Adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer ariannu grantiau a symud tuag at gyllidebau cyfun ac iddynt ymrwymiadau ariannu tymor hwy er mwyn helpu cyrff cyflawni i wella gwaith cynllunio prosiectau a'r gweithlu gan ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r strategaeth diogelwch cymunedol genedlaethol.<br>A5 Sicrhau bod perfformiad o ran diogelwch cymunedol yn cael ei reoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol ar bob lefel i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i farnu ynghylch cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol; a<br>• sefydlu dulliau mesur i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith, fel bo modd deall effaith penderfyniadau buddsoddi a chefnogi gwaith goruchwylio a chraffu.<br>A6 Diwygio'r systemau ar gyfer rheoli diogelwch cymunedol a chyflwyno trefniadau monitro ac adolygu sy'n canolbwyntio ar roi sicrwydd i'r cyhoedd bod yr arian a gaiff ei wario ar ddiogelwch cymunedol yn creu canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru.<br>A7 Gwella'r dull o ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion drwy fyrddau gwasanaeth cyhoeddus wrth:<br>• ddatblygu cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu; ac<br>• adrodd ar berfformiad a gwerthuso effaith. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Tachwedd 2016 | Trefniadau Awdurdodau Lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm | Gwnaed wyth argymhelliad yr adroddiad hwn, yr oedd yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu ynghylch chwech ohonynt. Roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru weithredu ynghylch Argymhellion A4 ac A6:<br>A1 Datblygu fframweithiau strategol ar gyfer cyflwyno ac adolygu taliadau, gan greu cysylltiad pendant rhyngddynt â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Corfforaethol.<br>A2 Adolygu'r costau fesul uned a chyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau dewisol er mwyn nodi unrhyw ddiffygion yn glir a, lle bo angen, gosod targedau i wella'r sefyllfa weithredu gyfredol.<br>A3 Defnyddio'r rhestr wirio asesu effaith bob tro wrth ystyried newid taliadau.<br>A4 Canfod cyfleoedd i gaffael cwmnïau o'r sector preifat i gasglu taliadau, er mwyn gwella effeithlonrwydd a darbodusrwydd wrth gasglu incwm.<br>A5 Gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad, llywodraethu ac atebolrwydd drwy:<br>• adrodd unrhyw newidiadau i daliadau i'r pwyllgor(au) craffu;<br>• gwella gwaith monitro er mwyn cael dealltwriaeth well o effaith newidiadau i ffioedd a thaliadau ar alwad, a chyflawniad amcanion;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill yn fwy trwyadl; a<br>• darparu gwybodaeth fwy cynhwysfawr i aelodau etholedig fel bo modd gwneud penderfyniadau cadarn.<br>A6 Gwella'r trefniadau ar gyfer rhagweld incwm o daliadau drwy gynllunio senarios a dadansoddi sensitifrwydd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ionawr 2017 | Y Modd y Mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector | Gwnaed tri argymhelliad yn yr adroddiad hwn, yr oedd yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu ynghylch dau ohonynt. Roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru weithredu ynghylch A3:<br>A1 Er mwyn cael y gorau o benderfyniadau ariannu, mae angen i awdurdodau lleol a chyrff y trydydd sector sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir ar waith i gefnogi eu gwaith â'r trydydd sector. Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol a chyrff y trydydd sector i ddatblygu eu harferion gwaith, argymhellir y dylai swyddogion awdurdod lleol a'r trydydd sector ddefnyddio'r Rhestr wirio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r trydydd sector ac yn gweithio gydag ef yn effeithiol i:<br>• hunanwerthuso ymgysylltu, rheoli, perfformiad ac arferion cyfredol o ran y trydydd sector;<br>• canfod lle mae angen gwella'r trefniadau cydweithio; a<br>• drafftio a rhoi cynllun gweithredu ar waith ar y cyd er mwyn ymdrin â'r bylchau a'r gwendidau a welwyd wrth hunanwerthuso.<br>A2 Mae trefniadau rheoli perfformiad gwael yn gwanio atebolrwydd ac yn cyfyngu'r gallu i graffu'n effeithiol ar weithgarwch a pherfformiad y trydydd sector. Er mwyn atgyfnerthu'r oruchwyliaeth dros y trydydd sector, argymhellir y dylai aelodau etholedig graffu ar y rhestr wirio adolygu a gwblhawyd gan swyddogion, a herio perfformiad swyddogion a'r awdurdod lleol yn rheolaidd wrth ymateb i fylchau a gwendidau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru